FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION CADARN

Ail gyfarfod ar ddeg ar hugain y fforwm a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 3 yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar Ddydd Gwener, 6 Chwefror 2009 am 1.30 pm

01/09 PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU

Presenoldeb:

LLYWYDD AC YSGRIFENNYDD
Emma Haldane

AELODAU
John Cooper-Poole
Sue Gittins
John Marchant (CBSW)
Tim Stratton
Edward Wardle
Mabyn Pickering
Gerald Moss
Peter Cade
Janet Williams
Gwynfor Jones
Mary Roberts
John Evans
Natalie Edwards
George Kinder
Mike Crawshaw
Guy Springett

ERAILL
Martin Howorth, CBSW
Alun Price, CCGC
Zara Lomax (Ecolegydd, CBSW)

Ymddiheuriadau: Shelagh Roberts

02/09 Cyflwyniad Zara Lomax, Ecolegydd
Rhoddodd Zara Lomax, Ecolegydd y Sir, gyflwyniad PowerPoint yn egluro ei gwaith yn y Sir a'i swyddogaeth ym mhroses ceisiadau cynllunio.

03/09 Cyflwyno Aelodau
Yn gweithredu fel Llywydd y fforwm, croesawodd Emma Haldane aelodau hen a newydd i gyfarfod cyntaf tymor 3 blynedd newydd. Pwysleisiodd bwysigrwydd

cynrychiolaeth gytbwys yn y fforwm o ddefnyddwyr mynediad adloniadol a thirfeddianwyr a deiliaid tir, ynghyd ag cynrychiolaeth buddiannau eraill.

Yn eu tro rhoddodd Aelodau gyflwyno byr ar eu cefndir, busnes a diddordebau hamdden.

04/09 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2008

15/08 Materion Trawsffiniol

Roedd Wrecsam yn awyddus i ffurfio cysylltiadau agosach gydag LAF eraill. Un awgrym oedd ffurfio gweithgor i edrych yn unig ar faterion trawsffiniol.

Roedd yr Ysgrifennydd wedi cael ymatebion cadarnhaol o Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Sir Gaer.

Cytunodd Sue Gittins a Tim Stratton gynrychioli Wrecsam fel rhan o'r gweithgor.

GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gysylltu ag LAF eraill i drefnu dyddiad a lleoliad

05/09 Adroddiad yr Ysgrifennydd

- Fel rhan o'r Strategaeth Gyfathrebu, cynigiodd yr ysgrifennydd ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn nesaf, sef:

Dyddiad	Lleoliad
Dydd Iau, 7fed Mai 2009	Coed-poeth – taith i'r maes yn dilyn
Dydd Iau, 6ed Awst 2009	Lleoliad i'w gytuno – taith i'r maes yn dilyn
Dydd Gwener, 6ed Tachwedd 2009	Ystafell Bwyllgora 3, Neuadd y Dref

- Gofynnodd yr Ysgrifennydd bod ffurflenni cronfa ddata holl aelodau newydd yn cael eu dychwelyd mor fuan ag y bo modd.
  GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i gydgasglu gwybodaeth a'i dosbarthu i holl aelodau WLAF

- **Ymchwil Ffyrdd Coll**
  Roedd Adrian Walls, ysgrifennydd LAF Sir Ddinbych, wedi trefnu sesiwn hyfforddi deuddydd yn Hen Garchar Rhuthun ar ddiwedd Chwefror yn benodol i edrych ar ymchwil 'Ffyrdd Coll'. Roedd un lle ar gael i un o aelodau LAF Wrecsam fynychu.
  CYTUNWYD: Bod Janet Williams yn mynychu ar ran Wrecsam

- Diolchodd yr Ysgrifennydd i Mabyn Pickering ar ran y fforwm am ei holl amser a gwaith caled fel cadeirydd gweithredol y fforwm diwethaf.

06/09 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – Diweddariad

Cyflwynodd Martin Howorth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, waith gwella i'r Fforwm perthnasol i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy 2008/09 gydag adolygiad o lwyddiannau dros y 12 mis diwethaf.

07/09 Adroddiad Ceidwaid Mynediad

Cyflwynodd John Marchant adroddiad ceidwaid Alison Whitley, Dave Smith a Siôn Roberts ar waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn y Sir.

Dywed Alison:

- Bod y gwaith prosiect llwybrau yng Ngwersyllt ar ei hanner ac yn mynd yn dda. Bydd yn dechrau archwilio'r gweithio a orffennwyd yn yr ychydig wythnosau nesaf ac yn llunio datganiad i'r wasg i gael cerddwyr llwybrau gwirfodd a chynorthwywyr mabwysiadu llwybr ar gyfer cynlluniau yng nghymunedau Brymbo, Coed-poeth a Gwersyllt.
- Ar hyn o bryd mae Alison wrthi'n edrych ar y prosiect llwybr troed nesaf yn 2009. Mae Broughton yn bosibilrwydd.

Dywed Dave:

- Ei fod wedi nodi gwaith wneud ar Lwybr Clawdd Offa yn 2009/10 ac mae wedi cyfarfod cynrychiolwyr awdurdod rheoli'r llwybr a CCGC.
- Ei fod yn delio ag ôl-groniad mawr o adroddiadau ar waith cynnal a chadw y tîm gwirfoddolwyr.
- Erbyn hyn mae Dave wedi gorffen dylunio amryw sypiau newydd o'r baneri arwyddbost cyrchfannau newydd ac, ers cyfarfod diwethaf y fforwm, mae wedi gorffen archwiliadau DCGG eleni.

Dywed Siôn ei fod:

- Wedi bod yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn delio ag ôl-groniad o gwynion cyffredinol sy'n cael eu derbyn gan y cyngor ac yn cadw cyswllt â chontractwyr. Dylid gorffen holl waith Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 08/09 erbyn diwedd y mis yma. Mae wedi gweithio ar y rhestr dros dro o waith i'w wneud fel rhan o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy 2009/10.
- Bydd Sean yn arwain tro dywysedig ym mis Ebrill yn cychwyn o faes parcio Pen Draw'r Byd, gyda manylion i'w cael yn y llyfryn Gwybodaeth a Digwyddiadau 2009.

Dywed Charlotte Flett (Tîm Hawliau Tramwy):

- Bod ymateb y gwirfoddolwyr, sydd wedi bod yn troedio'r llwybrau a hyrwyddwyd, wedi bod yn dod i law yn araf. Ar hyn o bryd mae'r wybodaeth hon yn cael ei mewnbynnu i gronfa ddata ac adroddiadau arolwg yn cael eu hargraffu. Bydd gwaith yn cael ei wneud o ganlyniad.
- Mae rhywun newydd wedi mabwysiadu llwybrau troed yn ardal Owrtyn wedi cymryd gwaith Mr Ken Farrell drosodd yn ddiweddar. Mae Mr David Burton eisoes wedi dechrau gwneud arolwg o'r rhwydwaith yn Owrtyn ac mae wedi ymateb ar 4 llwybr.
- Gyda chymorth tîm y we, mae gwefan gwirfoddolwyr yn cael ei thrafod yn fanylach a'r cam nesaf fydd creu tudalen arbrofol gan dîm y we, i weld sut fydd yn edrych unwaith y bydd yn gyflawn.

08/09 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyflwynodd Alun Price ei hun i aelodau newydd y fforwm, gan roi cefndir byr o'i waith yn CCGC, a thynnu sylw at brosiectau a materion presennol.

Grant Sblash
Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi lansio cynllun Grant Sblash i roi grantiau mawr a bach i gefnogi prosiectau ar hyd a lled Cymru sy'n gwella neu'n hybu mynediad cyhoeddus i ddyfrffyrdd, llynnoedd, cronfeydd dŵr ac ardaloedd arfordirol. Gall grantiau dalu hyd at 100% o gostau. Caiff ceisiadau eu gwahodd oddi wrth grwpiau gwirfoddol a chymunedol, y sectorau cyhoeddus a phreifat neu unigolion.

Mynediad at Ddyfroedd Mewndirol yng Nghymru
Yn 2008 roedd Cymdeithas Ganŵa Cymru (WCA) wedi cyflwyno deiseb o bron i 10,000 o lofnodion i'r Cynulliad yn galw am ddeddfwriaeth newydd fyddai'n sicrhau hawliau mynediad i ac ar hyd dyfroedd mewndirol.
Mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ystyried deiseb WCA ac yn archwilio'r mater ymhellach trwy gynnal ymchwiliad byr i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2009.

Rhaglen Grantiau Dewch i Gerdded Cymru 2008/09
Mae 'Dewch i Gerdded Cymru' yn rhoi grantiau i fudiadau a grwpiau ar hyd a lled Cymru. Bwriad y rhaglen yw edrych ar ffyrdd arloesol o hyrwyddo cerdded i wella iechyd a ffyniant. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â www.lets-walk-cymru.org.uk

09/09 Unrhyw fater arall

- Cyhoeddodd John Marchant y byddai'n ymddeol o Wrecsam ar ddiwedd Mawrth. Diolchodd y fforwm i John am ei holl waith rhagorol, cyngor a chefnogaeth dros y 6 blynedd diwethaf.
  GWEITHREDU: Yr Ysgrifennydd i hysbysu'r aelodau o gynrychiolydd newydd CBSW pan fydd penodiad.

- **Maes Parcio Melin y Brenin**
  Hysbyswyd problem gyda thyllau yn y ffordd fynediad a'r maes parcio ym Melin y Brenin.
  GWEITHREDU: John i ymchwilio i'r mater a'r Ysgrifennydd i roi adroddiad yn y cyfarfod nesaf

10/09 Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf

- Ethol Cadeirydd / Dirprwy Gadeirydd
- Drafft yr Adroddiad Blynyddol

11/09 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf
Dydd Iau, 7 Mai 2009 am 1.30pm Canolfan Fenter a Dysgu Gydol Oes Plas Pentwyn, Ffordd y Castell, Coed-poeth